



Crynodeb o Bolisi Doethineb Gwledig

Pobl Hŷn a Materion Gwledig

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r polisi ym mis Mawrth 2021; gall y polisi fod yn agored i newid neu gael ei ddisodli ar ôl y dyddiad hwn.



Mae'r crynodeb hwn i chi os ydych chi'n un o'r bobl sy'n rhan o waith Doethineb Gwledig yng Nghymru neu'r Alban - efallai fel Gweithwyr Datblygu, pobl hŷn ac eraill mewn cymunedau gwledig, partneriaid neu randdeiliaid ar safleoedd Doethineb Gwledig.

Beth bynnag fo'ch rôl, rydym yn gobeithio y bydd hwn yn eich helpu chi i adnabod ysgogwyr polisi allweddol a defnyddio'r rhain i:

- danlinellu negeseuon allweddol i'w rhannu'n fwy eang
- cael mynediad at bolisi sylfaenol i gefnogi heriau a newid
- annog meddwl a rhagor o ymchwilio

cefnogi cymunedau gwledig, gan ddefnyddio gwersi o Doethineb Gwledig i fwydo i mewn i bolisi a'i ddatblygu.

Gwneud y mwyaf o'r crynodeb hwn

Mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg o'r prif bolisiâu Cymreig ac Albanaidd sy'n effeithio ar bobl hŷn sy'n byw mewn ardaloedd gwledig. Mae rhai enghreifftiau darluniadol yn rhoi syniad o sut y gall nodau a dulliau mewn dogfennau polisi edrych 'ar lawr gwlad' mewn ardaloedd lleol. Fel crynodeb, ni all gynnwys pob polisi ond rydym yn gobeithio y bydd yn ysgogi trafodaeth ac annog pobl i rannu polisiâu eraill y maent yn gwybod amdanynt yn ogystal â nifer o enghreifftiau eraill o bolisi yn cael ei roi ar waith.

Mae polisiâu yn gorgyffwrdd ac yn effeithio ar unigolion a chymunedau. I roi strwythur, mae'r crynodeb hwn yn dechrau gyda 'pholisiau pobl' sy'n ymwneud mwy â'r unigolyn (Pobl Hŷn; Iechyd, Gofal a Chymorth, Unigedd ac Arwahanrwydd Cymdeithasol) ac yn symud at 'bolisiau lle' (Materion Gwledig, Trafnidiaeth, a Chymunedau yn Arwain).

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o'r **ddogfen gyfeirio** sylfaenol sy'n trafod y polisiâu mewn mwy o fanylder gydag enghreifftiau ychwanegol.

Rhennir pob adran o'r crynodeb yn feysydd fel a ganlyn



Darllen Pellach

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am Doethineb Gwledig, yn cynnwys gwaith datblygu, adroddiadau gwerthuso ac astudiaethau achos ar www.ruralwisdom.

Pobl Hŷn - Hawliau a Llais

Penawdau Polisi

Yr Alban

- **Alban Decach i Bobl Hŷn: fframwaith ar gyfer gweithredu** Dull yn seiliedig ar hawliau dynol a ddatblygwyd i herio'r anghydraddoldeb a wyneba pobl hŷn wrth iddynt heneiddio. Mae tair prif adran i'r strategaeth: **Ymgysylltu â chymunedau a chyfrannu atynt; Defnyddio gwasanaethau cyhoeddus ac eraill; Sicrhau diogelwch ariannol.**
- Gweinidog dros Bobl Hŷn ac Anghydraddoldeb **Llywodraeth yr Alban** sy'n bennaf

Communities

Older people have told us they want action to ensure they have access to:

- opportunities to remain actively engaged with, and involved in, their communities
- measures to improve community safety and reduce their vulnerability to scam callers and other kinds of elder abuse
- concessionary travel and transport
- activity that brings different generations together
- adequate housing that continues to meet their needs as they age.



Accessing Services

Older people want action to ensure they have access to:

- the public services they need
- adequate numbers of care sector workers in the wake of Brexit
- the health and social care services they require, including mental health
- opportunities to influence how health and social care integration is organised and delivered.



Financial Security

Older people want action to ensure they have access to:

- flexible employment opportunities
- measures and initiatives that promote their financial security (including pensions, benefits, meeting funeral costs and avoiding fuel poverty)
- support for planning for life changes
- measures to address the issues raised by the rising retirement age and the implications it has for older people's caring responsibilities and volunteering opportunities.



- **Y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru 2013-2023** Nod y strategaeth yw i'r holl bobl yng Nghymru deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi, waeth beth fo'u hoed. Mynd i'r afael â gwahaniaethu, diffyg cyfle ar gyfer bywydau llawn, tldi ac amgylcheddau sy'n creu dibyniaeth ac allgáu.
- **Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru** yn hyrwyddo hawliau pobl hŷn ledled Cymru, gan graffu a dylanwadau ar ystod eang o bolisiau ac arferion i wella eu bywydau.



Mae Strategaethau Pobl Hŷn Cymru a'r Alban yn debyg mewn sawl ffordd.
Mae pob un yn cynnwys y themâu cyffredin o bwys i bobl hŷn:

- mynediad at yr wybodaeth a'r gwasanaethau/cymorth cymdeithasol sydd eu hangen arnynt
- perthnasoedd da a chyfranogiad gweithredol yn eu cymunedau
- tai, trafndiaeth a man cymunedol i ddiwallu eu hanghenion
- diogelwch ariannol

Mae'r rhain i gyd yn themâu sydd wedi cael eu hadnabod mewn safleoedd Doethineb Gwledig yng Nghymru a'r Alban ac felly gallant ddarparu 'bachyn ar gyfer gweithgareddau lleol' yn ogystal â chyfluoedd ar gyfer dangos sut y gellir gweithredu strategaeth ar lawr gwlad i wella



Fel dulliau yn seiliedig ar hawliau, wedi'u gwreiddio yn y

- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus
- Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC)

Gall y polisiâu Pobl Hŷn hyn fod yn bwerus wrth greu newid cadarnhaol ar gyfer pobl hŷn, a chanddynt.



Mae Cymru a'r Alban wedi rhoi prosesau a chyfrifoldebau ar waith i sicrhau y gweithredir deddfwriaeth gydraddoldeb a hawliau dynol i hyrwyddo ac amddiffyn hawliau pobl hŷn. Mae hyn yn cynnwys **Comisiwn Hawliau Dynol yr Alban**, corff cyhoeddus annibynnol, sy'n atebol i bobl yr Alban drwy Senedd yr Alban.



Mae'n rhaid i gyrrff cyhoeddus gynhyrchu asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

Ar newidiadau gwasanaeth neu bolisi allweddol y mae angen iddynt fynd i'r afael ag unrhyw effaith bosib ar unrhyw rai o'r grwpiau sy'n cynnwys pobl hŷn. Yn yr Alban, mae gofyniad arall ar gyfer asesiadau o'r effaith wledig wedi cael ei gyflwyno mewn rhai ardaloedd (gweler yr adran ar Faterion Gwledig).



Ymrwymiad i Gyd-gynhyrchu

Annog pobl hŷn i ymgysylltu â'u cymunedau a chyfrannu atynt fel y gallant ddylanwadu ar ystod o wasanaethau a gweithgareddau i wella eu hardaloedd fel lleoedd i fyw ynddynt.



Nod Grymuso Pobl Hŷn i Wneud Newid

Drwy'r **Cynllun Heneiddio'n Dda** yw cefnogi cymunedau yng Nghymru i fod yn fwy ystyriol o oed.



Mae Volunteering Matters wedi rhannu'r gwersi o Doethineb Gwledig gyda

Swyddfa'r Comisiynydd a chymunedau ledled Cymru drwy ddigwyddiadau Heneiddio'n Dda. Maent hefyd mewn cyswllt rheolaidd ag arweinydd rhwydwaith Heneiddio'n Dda, y mae ei waith yn llywio gweithgarwch cyffredinol y Comisiynydd yn uniongyrchol.



Yn yr Alban mae'r **Grŵp Trawsbleidiol** ar Bobl Hŷn, Oed a Heneiddio yn galluogi pobl a'u sefydliadau i gyfrannu at, ac ymwneud â dylanwadu ar bolisi, ei ddylunio a'i weithredu. Fe'i cefnogir gan **Outside the Box**.



Mae sefydliadau'r trydydd sector yng Nghymru a'r Alban, a redir gan bobl hŷn eu hunain, sy'n ymgyrchu dros hawliau pobl hŷn a gwasanaethau gwell sy'n diwallu anghenion ac yn weithredol ar lefel genedlaethol a lleol - yn sefydlu grwpiau lleol a/neu'n cyfrannu at weithgorau/fforymau polisi cenedlaethol. Dau sefydliad cenedlaethol, y mae Llywodraeth Cymru a'r Alban yn gweithio'n agos â nhw, yw **Age Scotland** ac **Age Cymru**.

Ymgysylltu â chymunedau, a chyfrannuatynt

Clywed Lleisiau Pobl Hŷn

**Mae pobl hŷn wedi dweud wrthym
eu bod eisiau gweithredu i sicrhau bod
ganddynt fynediad at:**

- gyfleoedd i barhau i ymgysylltu'n weithredol, ac ymwneud â'u cymunedau
- mesurau i wella diogelwch cymunedol a lleihau eu bregusrwydd i alwyr digroeso a mathau eraill o gam-drin pobl hŷn
- teithio a thrafnidiaeth consesiynol
- gweithgareddau sy'n dod â chenedlaethau gwahanol ynghyd
- tai digonol sy'n parhau i ddiwallu eu hanghenion wrth iddynt heneiddio

Alban Decach i Bobl Hŷn:
fframwaith ar gyfer gweithredu

Cyd-gynhyrchu Ail-lunio Gofal yng ngogledd Sir Gaerhirfryn

Dengys sut y gellir defnyddio dulliau cyd-gynhyrchu ar lefel Bartneriaeth i rymuso pobl i wneud penderfyniadau ynglŷn â phrosiectau a gwasanaethau sy'n eu helpu i gynnal eu hiechyd a llesiant.

Llais a Rheolaeth

Mae pum prif egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cynnwys 'llais a rheolaeth' a 'chyd-gynhyrchu' fel y gall pobl hŷn ymwneud â dylunio a darparu gwasanaethau sy'n eu helpu i

Cynllun y Trydydd Sector Cymru

Disgrifia cyd-gynhyrchu fel "adeiladu gwasanaethau o amgylch y person a'r gymuned a datgloi adnoddau amser, arian ac arbenigedd posib i gyfuno â chymorth gwladol, nid ei ddisodli. Mae'n gwneud i adnoddau fynd ymhellach o lawer mewn ffyrdd gwahanol a newydd sy'n cryfhau unigolion a chymunedau".

Pethau i feddwl amdanynt



Trafodaethau mewn cymunedau Cymreig am ddod yn Sefydliad Iechyd y Byd Mae Cymunedau sy'n Ystyriol o Oed wedi amlygu bod angen rhoi ystyriaeth i wledigrwydd a gall dulliau gwahanol fod yn ofynnol o ganlyniad, i gymunedau gwledig gyflawni'r statws.



Mae Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu'r Alban, y gall unrhyw un ymuno ag ef, ar waith ar gyfer rhannu gwersi a chyfnewid arferion cyd-gynhyrchu.



Mae'n werth darganfod pwy sy'n gyfrifol am 'Gydraddoldeb a Hawliau Dynol' a 'Phobl hŷn' yn eich awdurdod lleol ac asiantaethau cyhoeddus eraill fel y gallwch weithio gyda nhw i wneud yn siŵr bod polisiâu yn cael eu rhoi ar waith yn lleol.

- **Integreiddio Iechyd a Gofal Cymdeithasol** Ei nod yw gwella gofal a chymorth i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, eu gofalwyr a'u teuluoedd drwy roi mwy o bwyslais ar uno gwasanaethau a chanolbwyntio ar yr hyn sy'n ddisgwylgar ac ataliol. Goruchwylir gan y **Grŵp Strategol Gweinidogol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymunedol**.
- **Canllawiau statudol ar integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol** Wedi'u llywio gan gyfranogiad y bobl ar lefel leol/cynrychiolwyr cymunedol, cynrychiolwyr y trydydd sector, a phobl gyda phrofiad go iawn.
- **Cymorth sy'n canolbwyntio ar y person** Mae darparu gofal sy'n canolbwyntio ar y person yn flaenoriaeth strategol i GIG yr Alban a Llywodraeth yr Alban ac yn rhan allweddol o gyflawni gweledigaeth 2020 ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol.
- **Deddf Gofal Cymdeithasol (Cymorth Hunangyfeiriedig) 2013** Galluogi pobl hŷn i gael cymaint o ddylanwad dros eu gofal eu hunain ag yr hoffent. Gofyn bod ystod o opsiynau ar gael e.e. taliad uniongyrchol lle gall person gyflogi eu staff eu hunain.
- **Strategaeth Dementia Genedlaethol 2017-2020** Ei nod yw trawsnewid gwasanaethau a gwella canlyniadau i bobl sy'n cael eu heffeithio gan ddementia, yn cynnwys drwy greu **cymunedau sy'n ystyriol o Dementia**.
- **Adolygiad o Gyfraith Iechyd Meddwl yr Alban a Chomisiwn Lles Meddyliol yr Alban** Monitro deddfwriaeth i ddiogelu a chefnogi **oedolion gydag analluedd**.
- **Deddf Gofalwyr (Yr Alban) 2016** Gwella cymorth i ofalwyr drwy roi dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu cynllun cymorth i ofalwyr a chymorth i ofalwr anffurfiol.

- **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** Mae'n darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella a thrawsnewid llesiant pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, yn cynnwys gofalwyr.
- **Strategaeth Gofalwyr Cymru 2013** Mae'n darparu fframwaith y gall asiantaethau ledled Cymru weithio oddi mewn iddo i ddarparu gwasanaethau a chymorth i ofalwyr.
- **Cymru iachach: cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol** Ar gyfer trawsnewid iechyd a gofal cymdeithasol yn barhaus gan fynd i'r afael â'r canfyddiadau allweddol o'r **Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal yng Nghymru**.
- **Cronfa trawsnewid gwasanaethau iechyd a gofal** £100 miliwn i gefnogi newidiadau ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol.
- **Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol i Bobl Hŷn yng Nghymru** Mae'n sail i ddull sy'n seiliedig ar gryfder ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru a darpariaeth Taliadau Uniongyrchol ar gyfer unrhyw angen am ofal a chymorth a adnabuwyd.
- **Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Dementia 2018 – 2022** Mae'n cydnabod hawliau pobl sydd â dementia i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a byw mor annibynnol â phosib yn eu cymunedau.

Sut y gall hyn weithio?



Mae datrysiadau dan arweiniad y gymuned wedi bod yn effeithiol mewn ardaloedd trefol a gwledig drwy alluogi pobl i gael mynediad at gymorth o'u cymunedau eu hunain i ddiwallu eu hanghenion. Gellir dod o hyd i enghreifftiau ym **Mhapur 5 Cymorth dan arweiniad y Gymuned yn yr Alban NDTi**.



Cyfleoedd cymunedol i gadw'n heini

I iechyd corfforol a meddyliol pobl hŷn yn cynnwys drwy bresgripsiynu cymdeithasol a grwpiau hunangymorth lleol.



Bydd **arweinyddiaeth ddynamig** yn ofynnol i ysgogi newid, grymuso eraill ac arwain drwy esiampl yn ogystal ag er mwyn creu'r amodau ar gyfer arloesi a gwella parhaus (gan Gymru Iachach).



Ail-alluogi ac Ysbyty Gartref

Annog annibyniaeth drwy byliau â chyfyngiad amser o gymorth adferol neu ofal canolradd gartref ar ôl/fel opsiwn arall i amser yn yr ysbyty/gofal aciwt



Crynhodd adroddiad ym mis Hydref 2019 'My Support, My Choice' a gyhoeddwyd gan y Gynghrair/Gwaith Cymdeithasol yr Alban, safbwyntiau defnyddwyr cymorth hunangyfeiriedig a gwnaeth argymhellion ar gyfer gwella arferion drwy ymyrraeth gynnar.



Cyhoeddwyd yr **Adolygiad Annibynnol o Ofal i Oedolion yn yr Alban** ym mis Chwefror 2021. Mae'r argymhellion yn cynnwys hyrwyddo gweithio gyda chymunedau, cymorth ac ymyrraeth gynnar, sgysiau yn seiliedig ar gryfder a symud oddi wrth gomisiynu cystadleuol at gomisiynu cydweithredol yn seiliedig ar ymddiriedaeth.



Cronfa Gofal Integredig

Annog a galluogi gweithio integredig rhwng gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, tai a'r trydydd sector a darparwyr gwasanaeth annibynnol yng Nghymru.

Ail-alluogi

Cyflwynodd Partneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Dumfries a Galloway, y Gwasanaeth Asesiad Tymor Byr ac Ail-alluogi i fanteisio ar wybodaeth, capasiti a hyder defnyddwyr gwasanaeth i fyw'n annibynnol gartref Mae'r gwasanaeth yn derbyn rhwng 80 a 90 o atgyfeiriadau'r mis, gyda 63% ar gyfartaledd yn cyflawni annibyniaeth fel y diffinnir gan eu nodau personol, gan arwain at ddim dibyniaeth ar ofal ffurfiol ac arbediad cost o oddeutu dros £3 miliwn yn nhermau gofal cymdeithasol ac ychydig o dan £150,000 yn nhermau costau cleifion mewnol aciwt.

Cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn Sir Ddinbych

Mae gan Charles ddementia cynnar sydd wedi effeithio ar ei hyder, ac ar iechyd meddwl Hilda. Roedd Hilda yn awyddus iawn i gael cymorth seibiant ac eisiau trefnu gwasanaeth eistedd i mewn ar gyfer Charles. Drwy Gymorth dan arweiniad y Gymuned Sir Ddinbych, cawsant eu hatgyfeirio at Swyddog Cyfeirio Cymunedol a aeth i weld y cwpl yn eu cartref, a holi Charles am yr holl bethau roedd wedi'u mwynhau yn y gorffennol, ei hobiau a'i diddordebau. Gyda'i gilydd gwnaethant drafod amrywiaeth o gyfleoedd lleol y gallai roi cynnig arnynt, a bellach mae Charles yn mynychu dau grŵp cymunedol lleol bob wythnos, sy'n gweddu i'w anghenion. Mae hyder Charles wedi gwella, yn fwy na fyddai wedi gwella gyda gwasanaeth eistedd i mewn o bosib, ac mae Hilda wedi cael seibiant mawr ei angen ac mae ei llesiant meddyliol wedi gwella.

Papur 4: Cymorth dan arweiniad y Gymuned: Dysgu o Straeon am Newid

Motherwell

oedd y gymuned ystyriol o ddementia, gyntaf yn yr Alban, pan gyhoeddwyd canol y dref yn ystyriol o ddementia yn 2012. Yn ogystal â hyfforddiant ymwybyddiaeth i staff allweddol, roedd hyn yn cynnwys gosod arwyddion clir a phendant, hwylustod o ran cyfarwyddiadau, goleuadau, ardaloedd eistedd a mathau o lorïau.

Cyfeillion Cerdded Cymru

Prosiect 3 blynedd a sefydlwyd i helpu oedolion hŷn i ddechrau cerdded yn eu cymunedau, gwneud cysylltiadau newydd a bod yn llais ar gyfer yr hyn sydd angen ei newid yn eu hamgylchedd cerdded lleol. Mae grwpiau bach o bobl yn cyfarfod yn wythnosol, dan arweiniad gwirfoddolwr i ddechrau, i archwilio eu cymunedau lleol ar droed a dod i adnabod ei gilydd.

Arweinir y prosiect hwn gan Living Streets a dyfarnwyd £220,000 iddo am dair blynedd drwy'r Gronfa Iach ac Egnïol a Chwaraeon Cymru gyda'r nod o leihau unigedd.



Mae'r Care and Wellbeing Co-op

yn grŵp o ddarparwyr micro sy'n darparu gofal a chymorth i bobl yng nghefn gwlad Swydd Perth, gan helpu i siapio gofal a chymorth i bobl yn yr ardal.

Cymunedau o Ynysoedd Anghysbell

Mae Orkney, Shetland ac Ynysoedd y Gorllewin – i gyd yn wynebu heriau penodol o ran mynd i'r afael ag arwahanrwydd cymdeithasol a gwella cysylltedd, yn ogystal â darbodion maint a mynediad at wasanaethau. Yn yr ardaloedd hyn, mae Cymorth dan arweiniad y Gymuned yn galluogi asiantaethau i weithio gyda chymunedau lleol i ymateb i'w hanghenion, dyheadau a syniadau.

Pethau i feddwl



Gofalwyr Cymru

Canfu ymchwil gan **Gofalwyr Cymru** fod llawer o waith i'w wneud eto i roi'r strategaeth ar waith. (E.e. Dim ond 15% o ofalwyr oedd wedi cael asesiad o anghenion yn y flwyddyn yn arwain at fis Mawrth 2020 ac nid oedd 41% wedi clywed am asesiad o anghenion gofalwyr cyn yr arolwg). Mewn ymateb i'r canfyddiadau hyn, mae Gofalwyr Cymru yn galw ar Grŵp Cyngori'r Gweinidog ar Ofalwyr i ganolbwyntio ar ei rôl strategol yn symud hawliau gofalwyr ymlaen a chynllunio gwasanaethau cymorth i ofalwyr di-dâl.



Effaith Covid 19 ar iechyd a gofal cymdeithasol pobl hŷn

Yn yr Alban, adolygwyd meysydd polisi allweddol, canllawiau a newidiadau deddfwriaethol i gynorthwyo gyda darparu gofal yn ystod y cyfnod clo, yn benodol mewn perthynas ag iechyd meddwl. Mae hyn wedi arwain at bryderon am effaith bosib hyn mewn rhai ardaloedd o bolisi ar hawliau dynol.

Unigedd ac Arwahanrwydd Cymdeithasol



Penawdau Polisi

Scotland

Alban Gysylltiedig:

Ein strategaeth ar gyfer mynd i'r afael ag unigedd ac arwahanrwydd cymdeithasol ac adeiladu cymunedau cryfach

- Grymuso cymunedau ac adeiladu cydberchnogaeth
- Hyrwyddo agweddau cadarnhaol a mynd i'r afael â stigma
- Creu cyfleoedd i bobl gysylltu
- Cefnogi seilwaith sy'n meithrin cysylltiadau.

Wales

Cymunedau cysylltiedig:

Strategaeth ar gyfer mynd i'r afael ag unigedd ac arwahanrwydd cymdeithasol ac adeiladu cysylltiadau cymdeithasol cryfach

- Cynyddu cyfleoedd i bobl gysylltu
- Gwella seilwaith cymunedol (e.e. cynllunio, tai a thrafnidiaeth)
- Cymunedau cydlynol a chefnogol
- Adeiladu ymwybyddiaeth a hyrwyddo agweddau cadarnhaol.



Sut y gall hyn weithio?

'Sunshine Café' yng Nghoed-llai, gogledd Cymru

Caffi cymunedol a redir gan wirfoddolwyr sydd ar agor bob bore dydd lau i breswylwyr lleol o bob oed ddod ynghyd a chael sgwrs dros baned o de neu goffi. Mewn ymateb i arolwg am y caffi, dywedodd un preswlydd "Mae wedi gwneud gwahaniaeth mawr i'r gymuned ac i bobl sy'n byw ar eu pen eu hunain."

Yn ddiweddar, mae'r Ymgyrch i Roi Terfyn ar Unigedd

wedi cynhyrchu 'Ailymweld â Dulliau Addawol: Gweithredu effeithiol ar unigedd yn ddiweddarach mewn oes', fframwaith a chanllawiau ar gyfer mynd i'r afael ag unigedd ac arwahanrwydd. Mae hyn yn cynnwys dros 50 o enghreifftiau o bob cwr o'r DU, gan gynnwys rhai yng Nghymru a'r Alban a ddechreuwyd yn ystod cam cyntaf Doethineb Gwledig.

Pethau i feddwl amdanynt



Sicrhaodd Llywodraeth yr Alban fod arian ar gael i gefnogi pobl oedd yn gwarchod eu hunain ac i fynd i'r afael ag arwahanrwydd yn ystod y pandemig ac mae'n gweithio gyda'r trydydd sector ar gynlluniau tymor hwy i weithredu'r strategaeth.



Mae unigedd ac arwahanrwydd wedi cynyddu'n sylweddol ymhlith pobl hŷn yn ystod pandemig Covid. Mae ymateb y gymuned, fodd bynnag, i ddarparu cymorth yn ystod y cyfnod hwn, wedi bod yn arbennig ac mae sawl enghraifft o sut mae cymunedau eu hunain wedi darparu cymorth a chefnogaeth, gan amlygu pwysigrwydd mabwysiadu dull dan arweiniad y gymuned yn y dyfodol.

Materion gwledig a

Penawdau Polisi

Yr Alban

- **Prif ffrydio'r Polisi Gwledig** Mae'n cynnwys creu **Grŵp Gweithredu dros yr Economi Wledig (REAG)**, a'i ddiben yw gweithredu newid a chyflawni canlyniadau fel y gellir gwireddu potensial llawn yr economi wledig.
- **Deddf Ynysoedd (Yr Alban) 2018** Dyletswyddau i ystyried effaith unrhyw bolisi cenedlaethol newydd ar gymunedau o ynysoedd
- **Diogelu cymunedau gwledig anghysbell yr Alban** Proses ymgynghori ar gyflwyno deddfwriaeth newydd i ystyried effaith newidiadau polisi ar gymunedau gwledig ar dir mawr yr Alban
- **Oedran, Cartref a'r Gymuned: strategaeth ar gyfer cartrefu pobl hŷn yr Alban 2012-2021** sy'n anelu at ddarparu tai a chymorth yn gysylltiedig â thai i bobl hŷn yn yr Alban. Caiff ei monitro drwy'r **Grŵp Monitro a Chynghori ar Oedran, Cartref a'r Gymuned**


Cymru

- **Roedd y Cynllun Iechyd Gwledig** yn ymwneud â gwella darpariaeth gwasanaethau integredig ledled Cymru sydd bellach wedi'i ymgorffori yn y:
- **Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru a Chymru iachach: cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol**
- **Rhaglen Cronfa Datblygiadau Newydd (NDF)** Mae'n ceisio creu lleoedd gwledig bywiog gyda mynediad at gartrefi, swyddi a gwasanaethau
- **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016** Mae'n sicrhau bod rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn parhau yn ystyriaeth greiddiol

Sut y gall hyn

Mae Rhaglen Datblygu Gwledig yr Alban

yn darparu arian a chymorth i brosiectau a redir gan fusnesau, unigolion a grwpiau i helpu i greu cymunedau gwledig bywiog, amddiffyn a gwella'r amgylchedd a chefnogi busnesau gwledig.

 **Mae'r Cynllun Ynni Adnewyddadwy a Chymunedol (CARES)** yn annog perchnogaeth leol neu gymunedol o ynni adnewyddadwy ledled yr Alban. Nod y rhaglen yw cyfrannu at gyrraedd targed Llywodraeth yr Alban o 1GW o ynni adnewyddadwy dan berchnogaeth leol a chymunedol erbyn diwedd blwyddyn galendr 2020, a 2GW erbyn 2030.



Mae Llywodraeth yr Alban wedi annog ystod ehangach o dai gyda chymorth i bobl hŷn drwy fodolau newydd o ofal yn cynnwys tai gofal ychwanegol a hyrwyddo'r defnydd o ofal canolradd fel bod pobl yn gallu byw yn eu cartrefi eu hunain.



Ym mis Rhagfyr 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynnydd yn y dreth trafodiadau tir, fersiwn Cymru o godi'r dreth stamp ar ail gartrefi yng Nghymru, i helpu i godi £13m ar gyfer tai cymdeithasol. Mae'r symudiad yn rhan o gyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22 - a daeth i rym ar unwaith. Bydd yn gweld perchnogion ail gartrefi yn talu ardoll o 4% pan fyddant yn prynu eiddo gwerth hyd at £180,000, gan godi i 16% ar gyfer cartrefi gwerth £1.6m o leiaf.

Scottish Rural Action

Sefydliad y trydydd sector a'i ddiben yw sicrhau bod gan yr holl bobl sy'n byw ac yn gweithio yng nghefn gwlad yr Alban, y pŵer i gyflawni newid yn eu cymunedau ac yn gallu ymgysylltu'n weithredol â grwpiau cyfoed, y llywodraeth a llunwyr polisi er mwyn gwneud hynny.

Mae gwybodaeth am Senedd Wledig yr Alban a chymorth ac adnoddau eraill ar gael ar y wefan

Mae Opsiynau Tai

yn broses wybodaeth a chynghori y mae cynghorau yng Nghymru a'r Alban yn ei defnyddio pan mae rhywun yn cysylltu â nhw gyda phroblem dai, ac i ddechrau roedd yn canolbwyntio ar leihau digartrefedd. Yn fwy diweddar, ehangwyd ar yr agwedd hon i wneud yn siŵr bod pobl hŷn ac anabl yn derbyn cyngor a gwybodaeth briodol.

Mae

Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol Cynefin

yn ymddiriedolaeth tir cymunedol newydd a sefydlwyd i wasanaethu canolbarth a de Cymru, i gefnogi prosiectau sy'n darparu cartrefi fforddiadwy a chynaliadwy gyda thir, gyda chyfleoedd i ddeiliaid ddatblygu busnesau yn seiliedig ar y tir. Yr amcan yw helpu i adfywio cefn gwlad Cymru gan roi cyfle i bobl ifanc fyw yno.

Pethau i feddwl amdanynt



Effeithiau Brexit ar gyllid

Mae ystod o ffrydiau cyllid ar gyfer ardaloedd gwledig ar gael yn yr Alban, y mae rhai ohonynt yn ffrydiau cyllid Ewropeaidd ac, fel yng Nghymru, mae pryderon am effaith bosib Brexit ar drefniadau cyllid y dyfodol. Buddsoddodd rhaglen LEADER yr Alban fwy na £63 miliwn rhwng 2014 a 2020, wrth elwa 1,034 o brosiectau a chynorthwyo dros 2.25 miliwn o bobl. Mae LEADER yn dod i ben ym mis Ebrill 2021 ac mae ansicrwydd mawr am raglen beilot y mae Llywodraeth y DU yn ei datblygu i gymryd ei lle.



Er nad yw Deddf Amgylchedd (Cymru) na'r Rhaglen Datblygu Gwledig yn crybwyll pobl hŷn sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn benodol, mae'r NDF yn glir 'ei bod orau i ddyfodol ardaloedd gwledig gael ei gynllunio ar lefel ranbarthol a lleol'. Golyga hyn fod angen i bobl hŷn sy'n ceisio arwain newid drwy Doethineb Gwledig, ymgysylltu â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (gweler isod) i ddylanwadu ar ddatblygiad Cynlluniau Datblygu Lleol a Strategol a defnydd ohonynt.

Yr Alban

Strategaeth Drafnidiaeth Genedlaethol (NTS2)

Pwysleisia'r ymrwymiad i system drafnidiaeth sy'n lleihau anghydraddoldeb, sy'n hygyrch i bawb ac yn fforddiadwy

Cymru

Cysylltu Cymunedau yng Nghymru
Prosiect i adeiladu a chefnogi rhwydwaith trafndiaeth sy'n ymateb i alw mewn cymunedau ledled Cymru. Wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd

Sut y gall hyn weithio?



Cafodd y prosiect Cysylltu Cymunedau yng Nghymru lwyddiannau mawr o greu partneriaethau a gwasanaethau newydd, cynnal Rhwydweithiau Arloesi Trafnidiaeth ledled Cymru a darparu ystod o hyfforddiant i ddarparwyr trafndiaeth gymunedol. Daeth y prosiect i ben ym mis Rhagfyr 2020 ac felly'n ddiweddar mae wedi rhyddhau cyfres o adnoddau yn edrych ar sut y gall darparwyr trafndiaeth gymunedol ymgymryd â chodi arian yn effeithiol i ddatblygu mentrau megis 'Bydis Bws'.



Cynhyrchodd Age Scotland adroddiad cryno o'u canfyddiadau. O broses ymgynghori fawr gyda channoedd o bobl hŷn yr Alban ar eu hanghenion o ran trafndiaeth. Sicrhaodd hyn fod lleisiau pobl hŷn yn cael eu clywed yn y broses o siapio'r Strategaeth Drafnidiaeth Genedlaethol (NTS2) newydd.

Pethau i feddwl amdanynt



Cyhoeddodd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru 'Yr Hyn sy'n Gweithio wrth Drechu Tlodi Gwledig' yn 2018. Nododd yr adolygiad hwn o dystiolaeth fod Llywodraeth Cymru wedi cefnogi ystod eang o raglenni i fynd i'r afael â thlodi gwledig ond mae amcangyfrifon diweddar yn awgrymu bod bron i chwarter poblogaeth wledig Cymru yn byw mewn tlodi. Mae achosion tlodi gwledig yn gymhleth ac yn aml-wynebog, ond mae trafndiaeth mewn ardaloedd gwledig yn ffactor cyfrannol pwysig, hysbys.



Strategaeth Drafnidiaeth yr Alban - er bod cynnydd wedi'i wneud mewn rhai dinasoedd gyda darpariaeth ystod ehangach o drafnidiaeth hygyrch, mae heriau yn parhau wrth ddarparu trafndiaeth hygyrch, reolaidd mewn ardaloedd gwledig.

Cludiant Cymunedol Llanwrtyd

Mae CCLI yn Fenter Gymdeithasol nid-er-elw sy'n darparu gwasanaethau i breswylwyr yng nghanolbarth Powys, Cymru. Mae'r ardal hon, drws nesaf i'r hyn y mae rhai yn ei alw'n 'Anialwch Gwyrdd Cymru', yn wledig iawn a phrin ei phoblogaeth. Ychydig iawn o drafnidiaeth gyhoeddus sydd, felly mae teithio i'r siopau, ysbytai a gwasanaethau eraill yn gallu bod yn daith faith.

Mae CCLI yn rhedeg Car Cymunedol, Bws Siopa a Diwrnodau Allan i breswylwyr lleol, hŷn yn bennaf. Prin iawn yw'r grantiau sydd ar gael felly i wneud y costau'n fforddiadwy mae CCLI yn noddî'r gwasanaeth drwy Wasanaeth Ailgylchu Digwyddiadau a chontractau gyda Chyngor Sir Powys i reoli a gweithredu rhai o lwybrau trafnidiaeth ysgol, mwyaf gwledig y Cyngor.

Mae Bydis Bws

yn un o sawl gwasanaeth a ddarperir gan Gymdeithas Mudiadau Trafnidiaeth Gymunedol Sir Benfro (PACTO), sefydliad sy'n dwyn ynghyd y grŵp bach o weithredwyr trafnidiaeth gymunedol ar draws y sir. Gellid disgrifio Bydis Bws fel 'cyfeillio ar olwynion'. Mae'n darparu cymorth a chwmnïaeth i bobl y mae angen cymorth ychwanegol arnynt i allu defnyddio trafnidiaeth gymunedol neu gyhoeddus i deithio.

Upper Tay Transport Group

Wedi'i leoli yn ardal Aberfeldy o Ucheldir Swydd Perth a'i gefnogi'n wreiddiol drwy Doethineb Gwledig. Mae'r grŵp wedi defnyddio Cronfa Trafnidiaeth Gymunedol Cyngor Kinross a Perth i gyflogi gweithiwr datblygu rhan-amser i'w helpu i ymestyn mentrau trafnidiaeth gymunedol, gynaliadwy yn cynnwys rhannu lifft a llogi beic.



Mae Onward

wedi'i anelu at ddylunio a datblygu gwasanaeth sy'n gynaliadwy yn ariannol i bobl yr Alban gyda dementia i gefnogi pontio o ymddeol o yrru, gan eu cadw i symud ac yn gysylltiedig â'u cymunedau. Yn yr un modd, rhoddodd Go Upstream bobl sydd â dementia mewn cysylltiad â staff gwasanaethau teithio, er mwyn eu helpu i rannu profiadau ac arbenigedd, gwella gwasanaethau teithio ac adeiladu dealltwriaeth well o ddementia drwy gyd-dylunio datrysiadau.

Mae'r prosiectau hyn wedi galluogi pobl sy'n byw gyda dementia i gyd-ddylunio datrysiadau ymarferol i bobl a oedd yn gorfod ymddeol o yrru, gan dynnu ar eu profiadau uniongyrchol eu hunain. Maent o fudd gan fod darparwyr gwasanaethau trafnidiaeth wedi'u hyfforddi'n well ac yn ymwybodol o ddementia, ac maent eu hunain wedi'u grymuso i ddylanwadu ar ddarpariaeth trafnidiaeth a symudedd sydd fwyaf perthnasol iddynt.

Cymunedau yn arwain

Penawdau Polisi

Yr Alban

- **Deddf Grymuso'r Gymuned (Yr Alban) 2015** Mae'n annog diwygio gwasanaethau cyhoeddus drwy ganolbwyntio ar lle gall ymdrechion ac adnoddau ar y cyd partneriaid ychwanegu'r gwerth mwyaf at eu cymunedau lleol a lleihau anghydraddoldeb drwy Bartneriaeth Cynllunio Cymunedol.
- **Mae'r ddeddfwriaeth diwygio tir: hawl y gymuned i brynu** yn caniatáu i gymunedau yn yr Alban ymgeisio i gofrestru diddordeb mewn tir a'r cyfle i brynu'r tir hwnnw pan ddaw ar werth
- **Mae Gwirfoddoli i Bawb: fframwaith cenedlaethol** yn cydnabod pwysigrwydd gwirfoddoli i'r Alban ac yn amlinellu'r fframwaith a'r canlyniadau strategol ar gyfer hyrwyddo gwirfoddoli

Cymru

- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** Mae'r Ddeddf yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylchedd a diwylliannol Cymru. Bydd yn gwneud i'r cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf feddwl mwy am y tymor hir; edrych ar atal problemau a chael dull mwy cydgyssylltiedig. Rhaid i bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gynnal asesiad llesiant a chyhoeddi cynllun llesiant lleol blynyddol.
- **Cynllun y Trydydd Sector** Mae'n ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru amlinellu sut y bydd yn hyrwyddo buddiannau sefydliadau'r trydydd sector.

Sut y gall hyn



Mae Foundation Scotland yn ymwneud â gweinyddu oddeutu £4 miliwn bob blwyddyn mewn cronfeydd budd cymunedol o ffermydd gwynt ledled yr Alban. Dyma enghraifft o sut y gall cymunedau ddefnyddio cymalau budd cymunedol mewn caffael cyhoeddus yn yr Alban - cymalau sy'n ymddangos mewn contractau'r sector cyhoeddus yn yr Alban ac sy'n ffordd i'r sector cyhoeddus ofyn i'r cyflenwyr y maent yn prynu ganddynt i roi rhywbeth yn ôl i'r gymuned y mae'r nwyddau neu'r gwasanaethau yn cael eu prynu ar ei chyfer.



Sefydliadau dan berchnogaeth y gymuned sy'n cael eu rhedeg gan aelodau o'r cyhoedd gyda'r prif ddiben o ddatblygu tai fforddiadwy yw Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol yng Nghymru. Mae'r Rhwydwaith Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol Cenedlaethol yn rhestru 225 o ymddiriedolaethau ledled Cymru a Lloegr, y mae oddeutu 60 ohonynt wedi datblygu 700 o dai rhyngddynt



Mae cymunedau sy'n ystyriol o oed a chymunedau sy'n ystyriol o ddementia yn ffyrdd o hyrwyddo newid yn y gymuned gyfan i bobl o bob oed.



Mae Volunteering Matters, wedi bod yn cydlynu gwirfoddoli yng Nghymru gan unigolion yn ystod y pandemig. Mae'r rolau hyn yn amrywio o leihau unigedd ac arwahanrwydd i wella iechyd a llesiant, mewn cymunedau lleol ledled Cymru.



TEC Scotland y rhaglen Gofal a Alluogir gan Dechnoleg sy'n anelu at sicrhau mwy o gynhwysiant digidol drwy fynd i'r afael ag effaith arwahanrwydd cymdeithasol o ganlyniad i'r pandemig diweddar. Caiff ei harwain gan Lywodraeth yr Alban a'i darparu gyda Connecting Scotland.



Mae Cymunedau Digidol Cymru yn brosiect gan Lywodraeth Cymru sy'n cael ei ddarparu gan Ganolfan Cydweithredol Cymru. Mae'n cefnogi sefydliadau'r trydydd sector ac eraill sy'n gweithio gyda phobl sydd wedi'u hallgáu yn ddigidol. Mae hyn yn cynnwys darparu gweithgareddau cynhwysiant digidol yn ystod y pandemig fel y gallant gael mwy o effaith.

Cefnogaeth hanfodol gan y Sector Gwirfoddol

Mae adroddiad newydd gan Lywodraeth Cymru (Rhagfyr 2020) yn canmol partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a gwirfoddolwyr am ymateb yn gyflym i COVID-19. Dywedodd Ruth Marks, Prif Swyddog Gweithredol Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru:

"Ers dechrau'r pandemig, mae'r sector gwirfoddol wedi cynyddu ei wasanaethau i ddarparu cefnogaeth hanfodol i'r rhai mwyaf agored i niwed. Mae 22,528 o bobl wedi cofrestru i wirfoddoli eleni ar Wirfoddoli Cymru ac mae CGGC, Cynghorau Gwirfoddol Sirol ac Awdurdodau Lleol wedi gweithio ar y cyd i sicrhau bod y gwirfoddolwyr hyn yn gallu cefnogi pobl mewn angen".

Ystâd Galson

Ystâd dan berchnogaeth y gymuned sy'n cynnwys 56,000 acer o arfordir, tir amaethyddol a gweunydd yng ngogledd-orllewin Ynys Lewis yn yr Hebrides Allanol, yr Alban. Mae 22 pentref yn rhan o'r ystâd ac mae ganddi boblogaeth o bron i 2,000 o bobl. Yn ogystal â gweithredu fel landlordiaid ar gyfer yr ystâd a rheoli holl fusnes mewnol yr ystâd, mae'r Ymddiriedolaeth yn ymgymryd ag ystod eang o brosiectau ar ran y gymuned. Mae prosiectau cyfredol yn amrywio o brosiectau ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni i brosiectau twristiaeth ac ieuencid. Dosbarthir cyllid a geir o'r Tyrbinau Gwynt yn Ballantrushal drwy Gronfa Buddsoddi Cymunedol yr Ymddiriedolaeth sy'n darparu grantiau i brosiectau dan arweiniad y gymuned a chyfeillion.

Pethau i feddwl



Cronfa gwydnwch y trydydd sector ar gyfer Cymru

Fel rhan o gronfa £24 miliwn i helpu'r sector gwirfoddol i ymateb i'r coronafeirws, mae Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth goroesi ac adfer i fudiadau gwirfoddol yng Nghymru yn ystod pandemig Covid-19. Bydd yn cynnwys cyfuniad o 75% o grant a 25% o fenthyciad di-log i ddechrau ac a fydd ar gael i fudiadau'r sector gwirfoddol tuag at gostau eu gwariant refeniw parhaus, gan gynnwys cyflogau.



Mae nifer o gyfleoedd cyllid i'r trydydd sector yn yr Alban yn cynnwys y Loteri a chyllid i helpu mudiadau gwirfoddol i ddatblygu gwasanaethau gofal cymdeithasol a hyrwyddo llesiant cymdeithasol (adran 10 cyllid).

Myfyrdodau i Gloi

Mae polisiâu sy'n berthnasol i bobl hŷn a chymunedau gwledig yn cymryd agwedd sy'n seiliedig ar hawliau, ac yn seiliedig ar gryfder at lesiant pobl hŷn, yn gynyddol.

Maent yn cydnabod pwysigrwydd cyd-gynhyrchu a chyfraniad cymunedau lleol at wneud penderfyniadau a dylunio a/neu ddarparu gwasanaethau.

Ychydig iawno sôn sydd am bobl hŷn mewn cymunedau gwledig yn benodol.

Mae llawer o'r ddeddfwriaeth wledig yn ymwneud â'r economi, cynllunio a'r amgylchedd ffisegol, yn hytrach na sut mae pobl yn byw mewn cymunedau lleol.

Mae agweddau at gefnogi a chynnal cymunedau gwledig yng Nghymru a Lloegr wedi cael eu harwain yn aml gan argaeledd rhaglenni cyllid yr Undeb Ewropeaidd.

Mae cynnydd diweddar ym mholisi Llywodraeth yr Alban sy'n effeithio ar gymunedau gwledig yn cynnwys cyflwyno asesiadau o'r effaith wledig a pholisiâu trosglwyddo asedau.

Mae cyfleoedd ar gyfer trosglwyddo asedau i gymunedau yng Nghymru yn dechrau dod i'r fei hefyd, ond mae'n bwysig bod trosglwyddo asedau - lle bynnag y bo'n digwydd - yn cael ei ddefnyddio er budd y gymuned bob amser, ni ddylai ymwneud ag awdurdodau lleol yn trosglwyddo gwasanaethau.

Mae'r dull partneriaeth hwn hefyd yn hanfodol i roi polisi ar waith fel y gall gael effaith gadarnhaol ar bobl hŷn sy'n byw mewn ardaloedd gwledig. Fel arall, fel y mae Doethineb Gwledig a rhaglenni eraill wedi canfod mae'n debygol y bydd 'bwlch rhwng polisi ar lawr gwlad'.

Bydd gweithredu polisiâu yn llwyddiannus yn dibynnu ar sefydliadau lleol a phobl yn cymryd yr awenau ac yn cydweithio i ddefnyddio polisiâu fel bachau i wireddu newid.

Mae pandemig Covid 19 wedi amlygu dull cydweithredol gyda chymunedau lleol a sefydliadau'r trydydd sector yn dod i'r amlwg gyda chymorth hyblyg sy'n canolbwyntio ar y person. Lle mae awdurdodau lleol a phartneriaid wedi gweithio gyda chymunedau i wneud hyn

Dolenni Cyflym Yr Alban:

- Outside the Box
- Llywodraeth yr Alban

Dolenni Cyflym Cymru:

- Volunteering Matters Cymru
- Llywodraeth Cymru